



**GWEITHDREFN
CWYNIION AM SŴN**

**NOISE COMPLAINT
PROCEDURE**

CONTENTS

- 1. Introduction**
- 2. Stages in Investigating a Noise Complaint**
 - (i) Initial Enquiry**
 - (ii) Noise Logging**
 - (iii) Information/Evidence Gathering**
 - (iv) Assessment of Evidence**
 - (v) Enforcement**

1. Introduction

This leaflet is designed to let you know how the procedure for investigating noise complaints works within Carmarthenshire. The information may assist you, whether you are a complainant or someone alleged to be causing a noise disturbance.

Carmarthenshire County Council's Environmental Protection Team receives over 1300 noise complaints every year. Most noise complaints concern noise from the behaviour of neighbours, in particular from the failure to control barking dogs, loud music, DIY, etc. We also receive many complaints about industrial and commercial premises, including wind farms and public entertainment venues. However, a sound being audible in your home does not automatically make it a nuisance.

We cannot investigate noisy children playing or crying or people's day to day living noise such as walking about in their homes, entering and leaving the premises, flushing the toilet or arguments unless it can be clearly established that the noise is excessive or there is malicious intent.

There are other types of noise that we cannot investigate although they may affect certain people. For example, noise from the public highway could be dealt

CYNNWYS

- 1. Cyflwyniad**
- 2. Y Camau Ymchwilio i Gwynion am Sŵn**
 - (vi) Ymholiad Cychwynnol**
 - (vii) Logio Sŵn**
 - (viii) Casglu Gwybodaeth/Tystiolaeth**
 - (ix) Asesu'r Dystiolaeth**
 - (x) Gorfodi**

1. Cyflwyniad

Diben y daflen hon yw rhoi gwybod ichi sut y mae'r weithdrefn ar gyfer ymchwilio i gwynion am sŵn yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin. Gall y wybodaeth fod o gymorth ichi os mai chi yw'r achwynydd neu os mai chi yw'r un yr honnir ei fod yn achosi niwsans sŵn.

Mae Tim Diogelu'r Amgylchedd Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael tua 1300 o gwynion am sŵn bob blwyddyn. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â sŵn gan gymdogion, yn enwedig methu â rheoli cyfarth gan gŵn, cerddoriaeth uchel, crefftiau'r cartref ac ati. Rydym hefyd yn cael llawer o gwynion ynghylch safleoedd diwydiannol a masnachol, gan gynnwys ffermydd gwynt a mannau cynnal adloniant cyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw'r ffaith fod sŵn i'w glywed yn eich cartref ohono'i hun yn golygu bod y sŵn hwnnw'n niwsans.

Ni allwn ymchwilio i sŵn plant yn chwarae neu'n llefain nac i synau a ddeillia wrth i bobl fyw eu bywyd beunyddiol megis cerdded yn eu cartrefi, mynd i mewn i'w heiddo neu ei adael, tynnu'r dŵr mewn tŷ bach neu sŵn pobl yn cweryla oni bai y gellir dangos yn glir bod y sŵn yn eithafol neu fod bwriad maleisus.

Mae mathau eraill o sŵn na allwn ymchwilio iddynt er eu bod efallai yn effeithio ar rai pobl. Er enghraifft, gallai

with by the council's highways department and "people" noise in the street is a public disorder issue which should be dealt with by the police who may be contacted on the non-emergency telephone number 101 (or 999 in an emergency).

Noise can cause both stress and sleep disturbance and in extreme circumstances can contribute to health problems. Many complaints are part of a more general neighbour dispute, however the scope of our investigation will relate purely to noise.

For there to be a Statutory Noise Nuisance it must have a significant effect on you and the use or enjoyment of your property. It must therefore be more than just an annoyance or irritation. A Statutory Nuisance needs to occur for some length of time, or with some frequency. "One-off" occurrences are much less likely to be regarded as Statutory Nuisances. The judgment as to whether a Statutory Nuisance exists must have regard to what most people consider to be reasonable, i.e. the standards of "the Average Reasonable Person". We cannot expect a higher standard because of any undue sensitivity of the complainant.

Under certain circumstances, there are also powers contained within the Antisocial Behaviour, Crime and Policing Act 2014 that can be used to deal with noise complaints.

These powers are intended to deal with ongoing problems of nuisance which have a negative effect on a community's quality of life.

Where appropriate and safe to do so, complainants are advised to speak to their neighbours themselves first, because the noise might be occurring without their

Adain Priffyrdd y Cyngor ymdrin â sŵn o'r briffordd gyhoeddus ac mae sŵn pobl ar y stryd yn weithred o anhrefn gyhoeddus y dylai'r Heddlu ymdrin ag ef. Gellir cysylltu â'r Heddlu gan ddefnyddio'r rhif ffôn di-argyfwng 101 (neu 999 mewn argyfwng).

Gall sŵn achosi straen ac anallu i gysgu ac, mewn amgylchiadau eithafol, gall gyfrannu at broblemau iechyd. Mae llawer o gwynion yn rhan o anghydfod mwy cyffredinol am gymdogion, fodd bynnag bydd cwmpas ein hymchwiliad yn ymwneud â sŵn yn unig.

Mae'n rhaid bod y sŵn yn cael effaith sylweddol arnoch ac ar y defnydd neu'r mwynhad a gewch o'ch eiddo cyn y gellir ei ystyried yn Niwsans Sŵn Statudol. Felly mae'n rhaid i'r sŵn achosi mwy nag aflonyddwch neu ddieter. Mae Niwsans Statudol yn rhywbeth sy'n digwydd am gyfnod hir neu'n gymharol aml. Mae digwyddiadau "unwaith yn unig" yn llawer llai tebygol o gael eu hystyried yn Niwsans Statudol. Wrth benderfynu a oes Niwsans Statudol yn digwydd ai peidio mae'n rhaid ystyried beth y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn ei ystyried yn rhesymol, h.y. safonau "Rhywun Rhesymol Arferol". Ni allwn ddisgwyl safon uwch oherwydd sensitifrwydd anarferol ar ran yr achwynydd.

Mewn amgylchiadau penodol, ceir pwerau hefyd yn Neddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 y gellir eu defnyddio i ymdrin â chwynion am sŵn.

Bwriad y pwerau hyn yw ymdrin â phroblemau niwsans parhaus sy'n cael effaith negyddol ar ansawdd bywyd cymuned.

Lle mae'n briodol ac yn ddiogel i wneud hynny, cyngorir achwynwyr i siarad â'u cymdogion yn gyntaf oherwydd gallai'r sŵn fod yn digwydd heb

knowledge. This contact could avoid the problem escalating into a neighbour dispute, by involving the Council and the legal process.

Complaints are recorded and investigated in accordance with a procedure designed to ensure that complaints are dealt with consistently, appropriately and fairly, whilst protecting the human rights of both the complainant and those alleged to be causing a problem.

2. Stages in investigating a noise complaint

There are up to five possible stages to Carmarthenshire County Council's noise investigation procedure:

- (i) Initial Enquiry
- (ii) Noise Log
- (iii) Information/Evidence Gathering
- (iv) Assessment of Evidence
- (v) Enforcement

Each of these stages is described in turn in the following pages

(i) Initial Enquiry

When someone first contacts Carmarthenshire County Council with a complaint about noise, the complainant's details and the nature of the complaint are taken by our Contact Centre and recorded on our computer database. Alternatively, you may wish to log your complaint via the "Noise App" (see section ii).

It is our aim that within 5 working days this information pack is sent to the complainant.

Where noise is of a limited duration but the effects are severe, i.e. car alarms or burglar alarms, it is our aim to respond

iddynt sylweddoli hynny. Gallai gwneud hyn atal y broblem rhag tyfu'n anghydfod mawr rhwng cymdogion, drwy gynnwys y Cyngor a'r gyfraith.

Caiff cwynion eu cofnodi ac ymchwilir iddynt yn unol â gweithdrefn a luniwyd i wneud yn siŵr yr ymdrinnir â chwynion yn gyson, yn briodol ac yn deg, ac y diogelir hawliau dynol yr achwynydd a'r rhai yr honnir eu bod yn achosi problem.

2. Y Camau Ymchwilio i Gwynion am Sŵn

Mae hyd at bum cam posibl yng ngweithdrefn Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer ymchwilio i sŵn:

- (vi) Ymholiad Cychwynnol
- (vii) Logio Sŵn
- (viii) Casglu Gwybodaeth/Tystiolaeth
- (ix) Asesu'r Dystiolaeth
- (x) Gorfodi

Disgrifir pob un o'r camau hyn ar y tudalennau canlynol.

(i) Ymholiad Cychwynnol

Pan fydd rhywun yn cysylltu â Chyngor Sir Caerfyrddin gyda chwyn am sŵn, bydd ein Canolfan Gyswilt yn cofnodi manylion yr achwynydd a natur y gŵyn ac yn eu cadw ar ein cronfa ddata ar gyfrifiadur. Fel arall, efallai yr hoffech logio eich cwyn drwy'r "Ap Sŵn" (gweler adran ii).

Ein nod yw anfon y pecyn gwybodaeth hwn at yr achwynydd cyn pen 5 niwrnod gwaith.

Lle mae sŵn yn para am gyfnod byr ond mae'r effeithiau yn ddifrifol, h.y. larwm lladron neu larwm ceir, fe ymdrechwn i ymateb i'r gŵyn o fewn 1 diwrnod gwaith, a hynny fel arfer drwy ymweld â'r achwynydd.

within 1 working day, usually by visiting the person making the complaint.

With anonymous complaints, we are significantly limited in the service we provide; therefore, it is encouraged that full contact details are provided.

(ii) Noise Logging

Please record information on the attached noise log or by submitting audio records via the Noise App. Further information regarding the use of the Noise App can be found on the leaflet enclosed with this information pack.

Noise logging should describe the noise being complained of and how it affects you. It also helps to target resources to best effect by highlighting possible trends on the occurrence of the complaint and will be used as a basis for further investigation. It will be used as evidence in the event of any legal proceedings being taken by the authority.

Noise logging should be completed over a 7-day period (14-day period for noise from pubs, clubs etc), however, if you do not feel this time period is representative of the noise experienced then we would advise that you contact the investigating officer for further advice. Completed noise logs should be returned to the Environmental Protection Team, Town Hall, Iscennen Road, Ammanford, Carmarthenshire SA18 3BE or via E-mail to publicprotection@carmarthenshire.gov.uk within 21 days of the complainant receiving the noise log.

If we do not hear from you within 21 days or the information provided during the noise logging period does not indicate the presence of a potential Noise Nuisance, no further action will be taken by the council with respect to your complaint.

Yn achos cwynion di-enw, rydym wedi ein cyfyngu'n sylweddol o ran y gwasanaeth y gallwn ei ddarparu. Felly, anogir achwynwyr i roi eu manylion cyswllt yn llawn.

(ii) Logio Sŵn

Cofnodwch wybodaeth ar y log sŵn atodol neu drwy gyflwyno recordiadau sain drwy'r Ap Sŵn. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y defnydd o'r Ap Sŵn ar y daflen a amgaeir gyda'r pecyn gwybodaeth hwn.

Wrth logio sŵn, dylid disgrifio'r sŵn yr achwynir yn ei gylch a sut y mae'n effeithio arnoch. Hefyd mae'n helpu i dargedu'r adnoddau mwyaf effeithiol drwy dynnu sylw at dueddiadau posibl o ran pryd y mae'r gŵyn yn digwydd a chaiff ei ddefnyddio fel sail ar gyfer ymchwilio pellach. Fe'i defnyddir fel tystiolaeth os caiff unrhyw gamau cyfreithiol eu cymryd gan yr awdurdod.

Dylid logio sŵn dros gyfnod o 7 niwrnod (14 diwrnod yn achos sŵn o dafarnau, clybiau ac ati), fodd bynnag, os na fyddwch yn teimlo bod y cyfnod hwn o amser yn cynrychioli'r sŵn a brofir, byddem yn eich cyngori i gysylltu â'r swyddog ymchwilio i gael cyngor pellach. Dylid dychwelyd logiau sŵn sydd wedi'u cwblhau i Tîm Diogelu'r Amgylchedd, Neuadd y Dref, Heol Iscennen, Rhydaman, Sir Gaerfyrddin SA18 3BE neu drwy'r E-bost i diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk cyn pen 21 diwrnod ar ôl i'r achwynydd gael y log sŵn.

Os na fyddwn yn clywed gennych cyn pen 21 diwrnod neu os na fydd y wybodaeth a ddarperir yn ystod y cyfnod logio sŵn yn dangos bod Niwsans Sŵn posibl, ni chymerir camau pellach gan y cyngor o ran eich cwyn.

(iii) Information/Evidence Gathering

Upon receipt of sufficient information following the logging period which indicates the presence of a potential Noise Nuisance we will devise a monitoring programme based on the information you have provided.

Noise logging by the complainant will not replace the need for officers to carry out his/her own noise monitoring. The monitoring programme may involve proactive visits and/or the installation of noise-monitoring equipment.

A letter may be sent to the person(s) being complained of, advising them that a complaint has been received and that officers will be undertaking an investigation. We will **not** inform the person(s) being complained of, the dates of any noise measuring exercise(s).

Even though Environmental Protection Team will not provide your details at this stage, it is important to understand that in some situations the source of the complaint may assume who has made the complaint. For example, if you live in a semi-detached property it may be obvious who has complained about the noise. We will not confirm whether or not they are correct.

Noise monitoring can consist of officers undertaking visits to your home/locality and making a subjective assessment of the noise being complained about and/or installing noise monitoring equipment within your home. When available, the noise monitoring equipment will be left at your property, for a suitable period of time (typically three to four days) at the discretion of the investigating officer. It is important to note that equipment is normally located inside a dwelling, therefore a suitable electrical power point

(iii) Casglu Gwybodaeth/Tystiolaeth

Ar ôl derbyn gwybodaeth ddigonol yn dilyn y cyfnod logio, sy'n dangos bod Niwsans Sŵn posibl, byddwn yn llunio rhaglen fonitro ar sail y wybodaeth rydych wedi ei darparu.

Ni fydd unrhyw logio sŵn y mae'r achwynydd yn ei wneud yn disodli'r angen i swyddogion fonitro'r sŵn eu hunain. Gall y rhaglen fonitro gynnwys ymweliadau rhagweithiol a/neu osod cyfarpar monitro sŵn.

Mae'n bosibl y caiff llythyr ei anfon at y sawl sy'n destun y gŵyn yn ei hysbysu bod cwyn wedi dod i law ac y bydd swyddogion yn cynnal ymchwiliad. **Ni** fyddwn yn dweud wrth y sawl sy'n destun y gŵyn pryd fydd yr ymarfer mesur sŵn yn digwydd.

Er na fydd Tîm Diogelu'r Amgylchedd yn darparu eich manylion ar yr adeg hon, mae'n bwysig deall, mewn rhai sefyllfaoedd, y bydd y sawl y mae'r gŵyn wedi ei gwneud yn ei erbyn yn dyfalu'n gywir pwy sydd wedi ei gwneud. Er enghraifft, os ydych yn byw mewn tŷ pâr, efallai y bydd yn amlwg pwy sydd wedi cwyno am y sŵn. Ni fyddwn yn cadarnhau a yw'n dyfalu'n gywir ai peidio.

Gall y broses monitro sŵn gynnwys swyddogion yn ymweld â'ch cartref/ardal leol ac yn gwneud asesiad goddrychol o'r sŵn yr achwynir yn ei gylch a/neu'n gosod cyfarpar monitro sŵn yn eich cartref. Pan fydd y cyfarpar monitro sŵn ar gael, bydd yn cael ei adael yn eich eiddo am gyfnod priodol o amser (fel arfer tri neu bedwar diwrnod) fel y barno'r swyddog ymchwilio'n ddoeth. Mae'n bwysig nodi bod y cyfarpar fel rheol yn cael ei osod y tu mewn i adeilad, felly bydd angen soced drydan addas. Bydd angen eich cydweithrediad bryd hyn

will be necessary. Your co-operation will be required at this stage to record the noise by pressing a button when the noise occurs.

Officers will provide advice and guidance at the time of setting up equipment. It is important that any advice or instruction given by the officer is adhered to, so that any evidence collected is not jeopardised or corrupted. Please be aware that if the evidence is used by the authority in any formal action then we would require a witness statement from the person operating the equipment to authenticate the evidence. To confirm that you understand the advice provided to you during the installation of the noise monitoring equipment we will ask you to sign and date a declaration form.

Officers will usually undertake a maximum of three visits (this includes monitoring periods) to substantiate your complaint. If a Noise Nuisance has not been established, then the complaint will be ended.

(iv) Assessment of Evidence

On the return of the equipment the collected data will be analysed. The time involved in this stage of the investigation can vary, depending on the complexity of the complaint. It is necessary on occasions to analyse a significant amount of data, which can take some time.

(v) Enforcement

On conclusion of the investigation, a decision is made as to whether the evidence collected confirms the presence of a Noise Nuisance or not. In cases where the evidence does not support the existence of a noise nuisance, the investigation of the complaint is ended and both parties will be informed.

i recordio'r sŵn trwy bwysu botwm pan fydd y sŵn yn digwydd.

Bydd y swyddogion yn rhoi cyngor a chyfarwyddyd i chi pan fyddant yn gosod y cyfarpar. Mae'n bwysig cadw at gyngor a chyfarwyddyd y swyddogion fel nad effeithir ar y dystiolaeth mewn unrhyw fodd. Os yw'r awdurdod yn defnyddio'r dystiolaeth hon yn ystod camau ffurfiol bydd yn rhaid i'r sawl sy'n defnyddio'r cyfarpar roi datganiad tyst i gadarnhau'r dystiolaeth honno. I gadarnhau eich bod yn deall y cyngor a roddir ichi pan osodir y cyfarpar monitro sŵn, byddwn yn gofyn ichi lofnodi ffurflen datganiad a nodi'r dyddiad arni.

Fel arfer bydd swyddogion yn cynnal tri ymweliad ar y mwyaf (mae hyn yn cynnwys cyfnodau monitro) i roi pob cyfle posibl i'ch cwyn gael ei chadarnhau. Os nad oes Niwsans Sŵn, deuir â'r gŵyn i ben.

(vi) Aseu'r Dystiolaeth

Ar ôl dychwelyd y cyfarpar bydd y data a gasglwyd yn cael ei ddadansoddi. Gall yr amser a gymerir ar y cam hwn o'r ymchwiliad amrywio, yn dibynnu ar gymhlethdod y gŵyn. Weithiau mae angen dadansoddi data sylweddol, sy'n gallu cymryd peth amser.

(vii) Gorfodi

Ar ddiwedd yr ymchwiliad, gwneir penderfyniad a yw'r dystiolaeth a gasglwyd yn cadarnhau a oes Niwsans Sŵn neu beidio. Os nad yw'r dystiolaeth yn cefnogi bod niwsans sŵn yn digwydd, bydd yr ymchwiliad i'r gŵyn yn dod i ben a bydd y naill barti a'r llall yn cael gwybod am hynny.

Gall unigolion sydd yn dal i gredu bod niwsans statudol yn digwydd gymryd eu camau eu hunain o dan Adran 82 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, a

Individuals who still feel that a statutory nuisance exists can take their own action under Section 82 of the Environmental Protection Act 1990, and investigating officers can advise you of this procedure upon request.

Where a Statutory Noise Nuisance is in existence or is likely to occur or recur, an Abatement Notice(s) shall be served. A reasonable time will be given to comply with the terms of the notice. If further complaints are received which suggest that the notice is not being complied with, investigations will take place to confirm whether an offence has occurred. At this stage, we will then make an informed decision on how best to proceed, which may result in formal action.

In circumstances where Anti-Social Behaviour is confirmed, the appropriate action will be taken under the Anti-Social Behaviour, Crime and Policing Act 2014.

Where formal proceedings take place in a Magistrates court, the final decision would lie with the Courts. If the person on whom the Notice is served appeals the Notice, then the Magistrates Court again determines the outcome.

In order to achieve a successful appeal/prosecution, you will have to attend court and give evidence to support the case presented by the local authority.

gall swyddogion ymchwilio eich cynghori ynghylch y weithdrefn hon ar gais.

Pan fo Niwsans Sŵn Statudol yn bodoli neu'n debygol o ddigwydd neu ailddigwydd, rhaid cyflwyno Rhybudd (ion) Lleihau. Caniateir cyfnod rhesymol i gydymffurfio ag amodau'r Hysbysiad. Os daw rhagor o gwynion i law sy'n awgrymu na chydymffurfir â'r hysbysiad, bydd ymchwiliadau'n cael eu cynnal i gadarnhau a oes trosedd wedi digwydd. Ar yr adeg hon, byddwn wedyn yn gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch beth i'w wneud nesaf, a allai arwain at gymryd camau ffurfiol.

Mewn amgylchiadau lle cadarnheir Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, caiff y camau priodol eu cymryd o dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014.

Lle bo achosion ffurfiol yn cael eu cynnal mewn Llys Ynadon, y Llysoedd fyddai'n gwneud y penderfyniad terfynol. Os bydd y sawl sy'n derbyn yr Hysbysiad yn apelio yn ei erbyn, y Llys Ynadon sy'n penderfynu ar y canlyniad unwaith yn rhagor.

I sicrhau apêl/erlyniad llwyddiannus, bydd yn rhaid i chi roi tystiolaeth yn y llys i gefnogi'r achos a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol.

Cyfeiriwch wahanol elfennau o'r gŵyn at yr adran/asiantaeth berthnasol os oes angen

GWEITHDREFN CWYNION AM SWN

Rhoi Pecyn Gwybodaeth gyda log sŵn a manylion yr ap sŵn i'r achwynydd

Dychwelir y log sŵn papur/cyflwynir recordiadau sain drwy'r Ap Sŵn

Ni ddychwelir y log sŵn papur/ni chyflwynir dim recordiadau sain drwy'r Ap Sŵn

Y wybodaeth a ddarparwyd yn dangos bod niwsans sŵn posibl

Y wybodaeth a ddarparwyd yn annigonol

Dod â'r Ymchwiliad i Ben

Ymchwilio i'r Gŵyn: Rhaglen fonitro yn cael ei pharatoi yn unol â'r wybodaeth ar y daflen log

A oes niwsans sŵn/ymddygiad gwrthgymdeithasol?

Nac oes

Dod â'r Ymchwiliad i Ben
Darparu'r wybodaeth am adran 82 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd os gofynnir

Oes

CAMAU GORFODI GOHIRIEDIG

Cymerir camau priodol o dan y ddeddfwriaeth fwyaf priodol sy'n berthnasol i niwsans sŵn e.e. Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990/Deddf Rheoli Llygredd 1974

Cymerir camau priodol o dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014

Noise Nuisance Investigation Procedure

Refer varying elements of the complaint to relevant department/Agency if necessary

Information Pack with noise log and details of noise app issued to the complainant.

Paper noise log returned/audio records submitted via Noise App

Paper noise log is not returned/no audio records submitted via Noise App

Information provided indicates the presence of a potential noise nuisance

Insufficient information provided

Investigation Ended

Investigate Complaint: Monitoring programme compiled in accordance with information contained on log sheet

Can noise nuisance/anti-social behaviour be established?

No

Investigation Ended
Information provided on EPA Section. 82 if requested

Yes

DEFERRED ENFORCEMENT ACTION

Appropriate action will be taken under the most appropriate legislation relevant to noise nuisance e.g. Environmental Protection Act 1990/Control of Pollution Act 1974

Appropriate action will be taken under the Anti-Social Behaviour, Crime and Policing Act 2014.